

Cynorthwyo Cynnydd Disgyblion : Dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn, gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

1. Rhagarweiniad

Nod a phwrpas yr ymchwil hwn yw cynorthwyo cynnydd disgyblion. Dadansoddir, felly, ddatblygiad cyfannol un plentyn yn benodol er mwyn canfod gwell dealltwriaeth ynghylch y ffordd y mae'r disgybl yn dysgu gorau a'r hyn sydd yn effeithio ar ei dysgu. Drwy wneud hwn felly gellir personoleiddio'r dysgu er mwyn sicrhau bod cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n eu hysgogi.

Cychwynnir â throsolwg o'r dulliau a ddefnyddiwyd gan gyfeirio tuag at y manteision a'r anfanteision. Yna, ceir dadansoddiad o'r dysgwyr drwy gyfeirio a chysylltu ag amrywiaeth barn lenyddol. Gorffennir trwy nodi'r camau nesaf a'r ffordd ymlaen ar gyfer y dysgwr.

Ceir tystiolaeth sy'n cefnogi'r ymchwiliad hwn megis ymchwil gan Black a Williams (1998) sy'n cynnig tystiolaeth gadarn bod asesu ffurfiannol yn elfen hanfodol o'r ystafell ddosbarth ac yn ffordd o godi safonau cyflawniad disgyblion. Ceir, hefyd, ymchwil gan Claxton (2002) sy'n amlygu fod ymwybyddiaeth o sut mae unigolion yn dysgu yn arwyddocaol ar gyfer dysgu ac addysgu effeithiol. Yn ogystal, awgryma Dylan Wiliam (2011) nad oes perthynas o reidrwydd rhwng yr hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir ac felly asesu yw'r bont sydd yn caniatáu cysylltiad rhwng addysgu a dysgu.

Cynhaliwyd yr ymchwil mewn ysgol ym mhentref yn Sir Gaerfyrddin. Mae 45 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol ac addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth oed cymysg. Prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu yw Cymraeg fodd bynnag 18% o ddisgyblion yn unig a ddaw o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith y cartref (Estyn, 2015). Mae 19% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim,

ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru (Estyn, 2015). Yn ogystal, mae oddeutu 6% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol is na'r ffigwr genedlaethol (Estyn, 2015).

Seiliwyd yr ymchwiliad ar ddisgybl ym mlwyddyn 3. Mae'r disgybl targed yn gweithio ar lefel 2 uchel gydag agweddau o lefel 3. O ran cefndirol, mae ganddi 2 frawd hŷn, sydd hefyd yng Nghyfnod Allweddol Dau, ac maent hefyd yn gweithio ar y lefel disgwylidig i'w hoedran neu'n uwch na'r disgwylidig. O ran sgiliau cymdeithasol, y mae'r disgybl targed yn berson caredig a gofalgarg. Ymddengys ei bod hi'n gyfeillgar ar yr iard chwarae ac yn mwynhau chwarae a rhyngweithio gyda'i ffrindiau.

2. Casglu Data

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni'r ymchwiliad hwn oedd y Dull Mosaig a ddatblygwyd gan Clark a Moss (2011) mewn ymgais i gynnwys llais y plentyn mewn ymchwiliad. Seiliwyd y fframwaith ar syniadau a ddatblygwyd yn lleoliadau cyn ysgol Reggio Emilia, a gan gwricwlwm blynyddoedd cynnar Seland Newydd, Te Whāriki, sef cwricwlwm 'sy'n grymuso ac yn canolbwyntio ar y plentyn' (Thomas a Loughran, 2010: 125). Yn ogystal â hyn, ceir ymrwymiad tuag at Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n nodi bod gan bob plentyn yr hawl i wrandawriad. Mae Adran Addysg Llywodraeth Cymru wedi'i hymrwymyo i sicrhau bod egwyddorion CCUHP yn cael ei weithredu o fewn ein gwaith o ddydd i dydd (LICC, 2004) ac felly gellir dweud fod y fethodoleg hon yn berthnasol iawn i Gymru, ac felly'n gweddu i'r ymchwiliad hwn.

Cydnabuwyd nad yw llais y plant yn gyfyngedig i drosglwyddo syniadau trwy eiriau yn unig. Mae ymadrodd Malaguzzi 'the hundred languages of children' (Edwards et al., 2012) yn atgyfnerthu'r cysyniad hwn. Penderfynwyd, felly, ar fframwaith sy'n cynnwys defnyddio ystod eang o ddulliau sef yr hyn a elwir yn 'arfau' (Clark a Moss, 2011). Gellir dweud fod hyn yn effeithiol oherwydd ei fod yn caniatáu'r dewis i ddisgyblion ynghylch sut i fynegi eu barn a'u teimladau. Mae'r 'arfau' yn y dull ymchwiliad amlochrog hwn yn cynnwys arsylwi, cynadleda plentyn, cyfweiliadau ag

oedolion, defnyddio camerâu a theithiau ysgol. Trafodir, felly, yr 'arfau' neu'r dulliau gwahanol drwy nodi eu manteision a'u cyfyngiadau a chrybwyllir ystyriaethau moesegol sydd ynghlwm wrth rain.

2.1 Ystyriaethau Moesegol

Cydnabuwyd pwysigrwydd ystyried y goblygiadau moesegol cyn cynnal ymchwil mewn cyd-destun addysg. Mae canllawiau BERA (2011) yn pwysleisio pwysigrwydd cael caniatâd wrth y cyfranogion a'r ysgolion i gymryd rhan yn yr ymchwil.

Atgyfnerthwyd y cysyniad hwn gan Thomas a Loughran (2010: 124) y 'dylent fod yn gyfranogwyr parod'. Cafwyd, felly, ganiatâd wrth y pennaeth a'r athro dosbarth i gynnal yr ymchwil yn yr ysgol (gweler A1). Yn ogystal, gofynnwyd am gydsyniad rhiant y plentyn targed i gymryd rhan yn yr ymchwil drwy drafodaeth anffurfiol.

Gwnaethpwyd hyn oherwydd cydnabuwyd y gallai oedran y cyfranogwr (sef dan 16) gyfyngu ei ddealltwriaeth ynghylch cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil (BERA, 2011; PYDDS, 2017). Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bwysigrwydd rhoi'r cyfle i'r dysgwr ei hunan gael rhan weithredol yn y broses gydsynio. Paratowyd felly ffurflen gydsynio, a oedd yn addas ar gyfer oed y disgyblion (gweler A2). Eglurwyd hefyd nod yr ymchwil ar lafar hefyd er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn.

Cydnabuwyd hefyd hawliau'r cyfranogwyr i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd (PYDDS, 2017; BERA, 2011). Cyfeiriwyd tuag at y blentyn targed drwy ddefnyddio ED ac na chrybwyllir enw'r ysgol. Er hyn, rhoddwyd trosolwg cryno o'r ysgol a'r plentyn targed er mwyn esbonio cyd-destun yr ymchwil (gweler y rhagarweiniad).

2.2 Arsylwi

Penderfynwyd ar y dull arsylwi oherwydd caiff y dull hwn ei ddefnyddio yn aml yng nghyd-destun addysg (Bell 2010; Denscombe, 2014). Yn ôl Thomas a Loughran (2010: 123), arsylwi yw'r 'allwedd angenrheidiol' ar gyfer adnabod anghenion, galluoedd a photensial disgyblion er mwyn gallu 'darparu amgylcheddau a gweithgareddau dysgu priodol ar eu cyfer'. Defnyddiwyd dull arsylwi anstrwythuredig sef dull sydd heb ei gyfyngu i gategorïau o reidrwydd (Bell, 2010). Penderfynwyd ar y dull hwn er mwyn gallu arsylwi ar ystod eang o agweddau o fewn y pynciau iaith, mathemateg, lles, celf a gwyddoniaeth. Gellir dweud mai mantais arsylwadau

anstrwythuredig yw eu bod yn caniatáu i'r ymchwilydd arsylwi mewn ffordd fwy agored a naturiol heb darfu a dylanwadu ar y sefyllfa (Bell, 2010; Denscombe, 2014). Ar y llaw arall, cyfyngiad i'r dull yw nad yw'n bosib arsylwi ar bopeth ac felly gellir dweud eu bod yn anodd ei rheoli ac i gadw ffocws (Bell, 2010). Cefnogwyd y cysyniad hwn gan Denscombe (2014: 236) 'we cannot possibly remember each and every detail of the events and situations we observe.' Er mwyn osgoi hyn, cymerwyd nodiadau cryno mewn llyfr arsylwi. Yn ogystal, gellir dadlau fod y dull arsylwi yn gwrth-ddweud holl egwyddor y fframwaith mosaig sy'n pwysleisio pwysigrwydd ystyried llais y plant oherwydd gwelir persbectif oedolion ar fywydau plant yn unig. Fodd bynnag, dadleua Clark a Moss (2011) na ddylid cael gwared ar ddulliau traddodiadol a gwerthfawr megis arsylwi, ond yn hytrach eu hystyried a'u dadansoddi ochr yn ochr â dulliau eraill sy'n seiliedig ar ddulliau cyfranogol.

2.3 Cynhadledd

Penderfynwyd ar ddull cynadledda sy'n elfen bwysig o'r dull mosaig (Clark a Moss, 2011). Mewn gwirionedd, gwelwyd nifer cynyddol o ymchwilwyr yn defnyddio dull cynadledda neu cyfweiliadau er mwyn ystyried llais y plant yn eu hymchwil mewn addysg ddiweddar (Danby et al., 2011). Penderfynwyd ar gynhadledd lled-strwythuredig oherwydd eu bod yn caniatáu hyblygrwydd ynghylch natur y cwestiynau (Bell, 2010). Yn ogystal, gellir dweud y mae'n caniatáu i'r cyfranogwyr ddatblygu ac ymhelaethu ar eu syniadau drwy gyfrannu at drafodaeth anffurfiol i ryw raddau ac heb llawer o bwysau (Denscombe, 2014). Cydnabuwyd pwysigrwydd creu awyrgylch diogel a chroesawgar wrth gynnal ymchwil â phlant yn ôl canllawiau BERA (2011) ac felly gellir dweud yr oedd cynhadledd o'r fath yn addas ac yn berthnasol. Yn ogystal, sicrhawyd ymhellach nad oedd y gynhadledd yn dylanwadu ar gyflwr emosiynol y plentyn targed drwy ei gynnal mewn lle agored a chyfarwydd ac eglurwyd i'r plentyn targed bod ganddynt yr hawl i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg (BERA, 2011). Y peryg sydd ynghlwm â'r dull hwn yw dilysrwydd yr atebion, hynny yw nad oes gan yr ymchwilydd unrhyw ffordd o wybod a yw'r cyfranogwyr yn dweud y gwir neu beidio. Yn ogystal â hyn, mae peryg rhagfarn ynghlwm â'r dull hwn. Osgowyd rhagfarn drwy sicrhau fod y cwestiynau yn rhai agored ac nad caeedig. Ymhellach, trefnwyd trafodaeth anffurfiol â'r athro dosbarth

ynghylch yr atebion er mwyn sicrhau nad oes cam-ddehongliadau sy'n dangos tueddiad o ragfarn.

2.4 Lluniau a Thaith Ysgol

Penderfynwyd ar ddull sy'n caniatáu'r cyfle i'r plentyn targed dynnu lluniau o'i hoff bethau a'i hoff leoedd dysgu. Mantais dull lluniau yw gall gefnogi a chynnig golwg ddyfnach i gysyniad yn ogystal â chynnig ffordd arall o gyfathrebiad i blant (Cohen et al., 2011). Atgyfnerthwyd y cysyniad hwn gan Clark a Moss (2011: 28) 'photographs can offer a powerful new language for young children'. Cyfyngiad i'r dull hwn, unwaith eto, yw'r peryg o ddehongli'r lluniau yn anghywir (Cohen et al., 2011; Denscombe, 2014). Fodd bynnag, gellir osgoi'r cyfyngiad hyn drwy gydnabod cyd-destun y llun (Cohen et al., 2011; Denscombe, 2014). Penderfynwyd ar ddull taith ysgol gyda'r phlentyn targed er mwyn gallu cadw golwg ar gyd-destun y lluniau ac holi ymhellach (Clark a Moss, 2011).

3. Dadansoddi'r dysgwr

Yn yr adran hwn, dadansoddir datblygiad cyfannol ED drwy ddefnyddio model ASG (ASK) Nottingham (2013; 2016). Awgryma Nottingham (2013; 2016) ei fod yn fodel defnyddiol ar gyfer dadansoddi datblygiad cyfannol plentyn, yn ogystal â dadansoddi a oedd gwersi'n gyfannol. Yn ôl Nottingham (2013; 2016) mae angen cyfuniad o agweddau, sgiliau a gwybodaeth ar gyfer dysgu ac addysgu cyfannol. Defnyddir, felly, y fodel er mwyn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r data yn ei amlygu am agweddau, sgiliau a gwybodaeth y dysgwr. Yn ogystal, defnyddir y fodel er mwyn ystyried y darnau o dystiolaeth sydd 'ar goll' o bosib.

Cysyniad a ddaw i'r amlwg wrth ddadansoddi'r data a gasglwyd yw pwysigrwydd dysgu cydweithredol i'r disgybl targed. Tynnodd ED lun o fwrdd grŵp pan ymwelwyd ag ystafell ddosbarth Cyfnod Sylfaen (gweler A3), a oedd yn amlygu ar unwaith y posibilrwydd ei bod yn hoff o weithio mewn grwpiau a gyda chyfoedion. Cadarnhawyd y gred hon yn ystod y gynhadledd ar ôl y daith pan eglurodd sut yr oedd y byrddau grŵp yn ei hatgoffa o waith grŵp cyson yn y Cyfnod Sylfaen.

Awgrymodd ei fod yn parhau i hoffi gweithio fel grŵp ac amlygodd y ffaith nad oeddent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud hyn yng Nghyfnod Allweddol Dau. Atgyfnerthwyd y cysyniad hwn ymhellach yn ystod gwers iaith yn arsylwi ar ED. Disgwyliwyd i'r disgyblion gosod prif bwyntiau chwedl Blodeuwedd mewn trefn gronolegol yn annibynnol wedi'r cyfle iddynt glywed y chwedl fel dosbarth (gweler A4). Sylweddolwyd ar ED yn aml yn codi o'i chadair ac yn crwydro o amgylch y dosbarth sydd yn amlygu ei diffyg cymhelliant. Gellir dadlau yr oedd hwn o ganlyniad i gyn-lleied o gyfleoedd ar gyfer trafodaeth a rhyngweithiad ag eraill. Mewn gwirionedd, sylweddolwyd hefyd ar ddiffyg gwybodaeth a sgiliau deallusol ED yn ystod y gweithgaredd hwn. Er dengys ei waith ei bod wedi deall y gweithgaredd (gweler A5), sylwer ar fyrfodd CO (Cymorth Oedolyn) sy'n amlygu y cafodd gymorth cyson oddi wrth oedolyn er mwyn cwblhau'r gwaith. Adfyfiriwyd ar y wers hon gan ddefnyddio cynllun BWA (gweler A6). Daethpwyd i ganlyniad y bydd ED, ynghyd â disgyblion eraill y dosbarth, wedi'u cymell yn well ac yn dangos dealltwriaeth well pe baent wedi cael y cyfle i drafod a rhyngweithio fel grŵp neu fel partneriaid. Caiff hwn ei atgyfnerthu gan Nottingham (2013; 2016) sy'n nodi y gall agwedd y dysgwr tuag wers gael effaith uniongyrchol ar sgiliau a gwybodaeth y dysgwr.

Gweithredwyd ar y canfyddiad hwn wrth gynllunio ar gyfer y wers iaith ganlynol. Sicrhawyd yr oedd digon o gyfleoedd i ryngweithio a thrafod fesul grŵp gallu cymysg. Sylweddolwyd ar gymhelliant llawer yn uwch a chyfranogiad llawer yn well gan ED a gweddill y disgyblion (gweler A7). Gwelwyd ED yn cyfrannu'n sylweddol i drafodaeth y grŵp ac ar brydiau yn cymryd rôl arweinydd. Gellir dweud felly yr oedd hwn yn ffordd effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth ED drwy roi'r cyfle iddi drefnu ei syniadau ei hunan drwy esbonio i eraill â gallu is. Gellir casglu felly y mae ED yn gweithio'n well mewn gweithgaredd sy'n caniatáu trafodaeth a rhyngweithiad.

Mae'r ffordd y mae ED yn mwynhau dysgu gyda chyfoedion wedi'i chysylltu'n glir â damcaniaeth Vygotsky (1978) sy'n gysylltiedig â theori adeiladaeth gymdeithasol. Cred Vygotsky mai hanfod dysgu yw'r berthynas rhwng plant a'u profiadau gymdeithasol (Siencyn, 2008). Cyflwynodd gysyniad gwreiddiol y 'parth datblygiad procsimol' (PDP) sy'n amlygu'r gwahaniaeth rhwng dealltwriaeth plentyn heb gymorth eraill a dealltwriaeth plentyn gyda chymorth a rhyngweithiad gymdeithasol (Macblain, 2014; Grigg, 2015; Bates, 2016). Yn ogystal â hyn, nododd

effeithiolrwydd gweithio gyda'r hyn a alwyd yn MKO's (More Knowledgeable Others) (Bates, 2016) sydd bellach yn cefnogi'r cysyniad o grwpiau gallu cymysg.

Cefnogwyd cysyniad dysgu cydweithredol gan eraill megis Bruner (1996) a Hattie (2012). Nododd Hattie (2012) fod mentora cyfoedion yn neilltuol o effeithiol a bydd cynllunio ac addysgu da yn creu cyd-destunau strwythuredig ar gyfer hwn. Nododd ymhellach ei fod yn broses dysgu ddeuol sy'n awgrymu fod y disgybl sy'n gwneud yr addysgu yn dysgu cymaint a'r rhai sydd yn cael ei fentora; 'When students become teachers of others, they learn as much as those they are teaching' (Hattie, 2012: 88). Gellir dweud fod hwn yn cefnogi'r gysyniad o effeithiolrwydd gosod ED mewn grŵp gallu cymysg.

Cysyniad arall a ddaw i'r amlwg o'r data a gasglwyd yw cymorth adnoddau diriaethol i ddatblygiad dysgu ED. Sylweddolwyd ar agwedd chwilfrydig a brwdfrydig gan ED yn ystod gwrs Gwyddoniaeth yn archwilio nodweddion a swyddogaethau planhigyn. Gellir dweud yr oedd hyn o ganlyniad i'r cyfle a rhoddwyd iddi ymgyfarwyddo â'r termau a swyddogaethau drwy archwilio blodyn go iawn (gweler A8). Mewn gwirionedd, dangosa ei gwaith sgiliau deallusol a gwybodaeth gadarn wrth iddi allu labeli rhannau'r blodyn yn gywir ac yn annibynnol yn ogystal â llwyddo i ymchwilio i a nodi swyddogaethau rhannau gwahanol (gweler A9). Yn ystod y gynhadledd mynegodd ED ei hoffter o wersi gwyddoniaeth oherwydd ei bod yn cael y cyfle ymdrin â phethau diriaethol. Gellir casglu felly fod adnoddau diriaethol yn gymorth i ddysgu ED.

Caiff y cysyniad o ddysgu trwy ymwneud â gwrthrychau diriaethol ei gefnogi gan ddamcaniaeth Piaget sy'n perthyn i theori adeileddiaeth. Un o egwyddorion creiddiol damcaniaeth Piaget yw bod plant yn dysgu trwy wneud ac nad trwy dderbyn gwybodaeth yn oddefol (Siencyn, 2008). Gwêl Piaget ddatblygiad dysgu yn broses o gamau sydd yn cael eu diffinio gan gamau datblygol (Siencyn, 2008). Mae'r cam gweithredu diriaethol sy'n perthyn, yn ôl Piaget, i oedrannau 7-12/13 mlwydd oed yn cefnogi'r angen i ddefnyddio adnoddau diriaethol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o gysyniad (MacBlain, 2014). Meddai MacBlain (2014: 42) wrth ddisgrifio'r cam hwn 'thinking then becomes more flexible, though it is still constrained by the child's need to have concrete objects to represent this more sophisticated 'thinking'. Mewn

gwirionedd, cafodd syniadau Piaget o gamau dysgu gryn feirniadaeth ar y ffaith bod plant yn datblygu'n wybyddol ar gyflymdra gwahanol (MacBlain, 2014). Er bod cryn feirniadu wedi bod arno dros y blynyddoedd diwethaf, erys yn berson tra dylanwadol ym maes datblygiad dysgu plant a gellir cymhwyso ei damcaniaeth i ddatblygiad dysgu ED.

Cysyniad arall a ddaw i'r amlwg yn ystod y daith o amgylch yr ysgol oedd agwedd gadarnhaol ED tuag at iechyd. Tynnodd ED lun o droli ffrwythau'r ysgol yn ystod y daith o amgylch yr ysgol (gweler A10) a oedd yn amlygu'r posibilrwydd ei bod yn mwynhau bwyta'n iach. Cadarnhawyd y gred hon yn ystod y gynhadledd yn dilyn y daith ysgol drwy fynegi ei bod yn hoffi cael ffrwythau yn yr ysgol er mwyn bod yn iachus. Yn ogystal â hwn, wrth arsylwi ar ED mewn gwrs ymarferol yn plannu llysiau sylweddolwyd ar ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd. Dangosodd sgiliau corfforol da a gwybodaeth gadarn dros sut i blannu. Yn ystod y gynhadledd, mynegodd ei bod yn gyfarwydd â'r hyn yr oedd rhaid iddi ei wneud oherwydd ei bod yn mwynhau plannu gartref.

Gellir dweud felly fod agwedd gadarnhaol ED tuag at lysiau a ffrwythau yn ogystal â datblygu sgiliau i blannu yn dangos datblygiad gadarnhaol ym maes Lles.

Cydnabyddir bod iechyd yn elfen bwysig iawn o les plentyn. Mae model Maslow yn gosod gofynion lles mewn pyramid o bwysigrwydd gyda'r angen am fwyd a diod yn anghenion sylfaenol ar waelod y pyramid (Gealy a Saer, 2010; Bates, 2014). Er bod lles yn faes cymhleth ac eang, cydnabyddir ei fod yn greiddiol i ddatblygiad plant a phobl ifanc (Ryder, 2017). Atgyfnerthwyd hyn gan Gealy a Saer (2010) 'lles y plentyn yw craidd a chalon datblygiad y plentyn ac mae'n effeithio ar bob agwedd o'r datblygiad hwnnw.' Gellir dweud felly y mae ED yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac felly'n arwyddocaol yng nghyd-destun ei datblygiad cyfannol.

Cysyniad arall sy'n deillio o'r data a gasglwyd yw pwysigrwydd dysgu y tu allan. Yn ystod y daith ysgol tynnodd ED lun o'r iard (gweler A11). Esboniodd ED yn ystod y gynhadledd ei bod yn mwynhau gwneud gwaith y tu allan oherwydd y mae fwy hwyl a diddorol. Cefnogwyd hwn drwy arsylwi ar ED mewn gwrs fathemateg y tu allan a oedd yn cynnwys chwilio am linellau paralel a pherpendicwlar y tu allan.

Sylweddolwyd ar frwdfrydedd ED wrth iddi ymgeisio i ddod o hyd i wahanol linellau.

Clywyd dadl effeithiol a gwerthfawr ymysg ED a disgyblion eraill ynghylch yr angen i gael ongl sgwâr er mwyn iddo fod yn llinell berpendicwlar. Gellir dweud yr oedd hwn yn amlygu sgiliau cyfathrebu yn ogystal ag awydd i lwyddo. Mewn gwirionedd, dengys gwaith gorffenedig ED ddealltwriaeth a gwybodaeth gadarn dros linellau paralel a pherpendicwlar wrth iddi lwyddo i ddidoli'r lluniau i'r grwpiau cywir (gweler A12). Gellir dweud felly fod amgylchedd y tu allan yn effeithiol ar gyfer datblygiad dysgu ED am ei fod yn ennyn ei diddordeb, yn hybu ei sgiliau cyfathrebu ac o ganlyniad yn dangos lefel o wybodaeth gadarn.

Mewn gwirionedd, mae pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored wedi'i chydabod ers canrifoedd (Grigg a Lewis, 2016). Bathodd Froebel derm 'dosbarth allanol' sydd wedi datblygu mewn poblogrwydd ym myd addysg (Richards, 2010). Cefnogwyd y defnydd o'r tu allan gan Richards (2010) a bwysleisiodd bwysigrwydd cynllunio cyfleoedd i blant ddysgu yn yr amgylchedd allanol o ganlyniad i newidiadau amgylcheddol sydd wedi llesteirio rhyngweithiad plant â gweithgarwch allanol erbyn heddiw. Cyhoeddwyd erthygl gan Golwg (2014) a oedd yn datgan bod un o bob pedwar plentyn yn treulio llai na hanner awr yn chwarae tu allan bob dydd wedi'i seilio ar ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gellir dweud felly y mae cynnig y cyfleoedd hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd plant ac o ganlyniad yn hybu cyraeddiadau uchel.

Wrth ddadansoddi'r data, sylweddolwyd ar bwysigrwydd creadigedd mewn gwersi i ED. Yn ystod cyfnod yn arsylwi ar ED sylweddolais ar gymhelliant llawer yn uwch yn ystod y maes dysgu Celfyddydau Mynegiannol yn benodol mewn gwर्स celf. Sylweddolwyd ar ED yn mwynhau arbofi â'i waith ac nad oedd yn ofn rhoi tro arni drosodd a throsodd. Dangoswyd yn ei waith gorffenedig (gweler A13) sgiliau creadigol a dealltwriaeth gadarn dros gysgodi sef nod a phwrpas y wers yn dilyn gofynion y cwricwlwm i arbofi â gwahanol ddulliau (LICC, 2008). Yn ystod y gynhadledd, mynegodd ED ei hoffter tuag at wersi celf yn benodol a chyfeiriodd at deimlad o ryddid i fynegi ei hun heb gyfyngiadau. Fodd bynnag, nid trwy'r maes dysgu celfyddydau yn unig y sylweddolwyd ar ei natur creadigol. Gwelwyd cymaint yr oedd ED yn mwynhau mudo i fyd dychmygol a chyflwyno gwaith creadigol mewn gwर्स iaith Saesneg lle yr oedd yn ofynnol iddi ysgrifennu am blanhigyn dychmygol. Dengys sgiliau creadigol drwy gymharu'r planhigyn i bethau eraill (gweler A14).

Ceir llawer o ymchwil ar bwysigrwydd creadigrwydd yn y cwricwlwm ac o fewn addysg ar hyd y blynyddoedd (Cremin a Barnes, 2018; Fisher a Williams, 2006). Ceir ymarferwyr a damcaniaethwyr megis Vecchi (2010) a Bruce (2006) yn awgrymu gan weithgareddau creadigol effaith ar ddatblygiad cyfannol plentyn. Gellir dweud felly fod hyn yn atgyfnerthu'r ffaith ei fod yn hanfodol creu amgylchedd sydd yn caniatáu'r cyfle i ddisgyblion arbrofi eu creadigrwydd (Gealy a Rees, 2010). Mewn gwirionedd, ceir sawl cyfeiriad at ddefnyddio'r dychymyg a chreadigedd plant yn y cwricwlwm ar draws yr holl feysydd dysgu. Gwelir defnydd helaeth o eirfa sy'n berthnasol i greadigrwydd plant er enghraifft defnyddio'r dychymyg, bod yn ddychmygus, mynegi syniadau ac yn y blaen. Sylweddolir felly y mae'n holl bwysig i ddatblygu a chynnig y cyfleoedd i blant ddatblygu sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm.

4. Camau Nesaf

Yn yr adran hon cynigir ffyrdd ymlaen a champau nesaf yng ngoleuni'r data a gasglwyd a dadansoddwyd. Sylweddolwyd ar 5 brif thema sef pwysigrwydd dysgu gyda chyfoedion, defnyddio adnoddau bywyd go iawn, dysgu y tu allan, iechyd, a chreadigedd. Ystyrir felly pa ddarpariaethau a strategaethau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi anghenion dysgu ED er mwyn iddi wneud cynnydd priodol a chyfannol.

Yn gyntaf, felly, sicrhair bod cyfleoedd i ED rhyngweithio a thrafod gyda chyfoedion yn aml yn y maes dysgu ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu er mwyn cadw cymhelliant uchel a dealltwriaeth gadarn. Fodd bynnag, gellir dadlau ei fod cyn-bwysiced, os nad yn bwysicach, cynllunio ar gyfer hwn ar draws holl feysydd dysgu'r cwricwlwm yn sgîl y cwricwlwm newydd sydd ar y gweill wedi'i seilio ar adroddiad Donaldson (2015). Noda Donaldson (2015: 70) 'mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio'. Cydnabyddir felly y gall creu amgylchedd dysgu sy'n cynnwys mwy o gydweithio ymysg grwpiau bach, gefnogi datblygiad ymresymu rhifyddol disgyblion sy'n bwysig iawn yn sgîl y profion cenedlaethol. Awgryma Swain et al. (2007) fod cydweithio mewn grwpiau yn cefnogi datblygiad ymresymu rhifyddol a sgiliau gweithdrefnol disgyblion drwy roi'r cyfle iddynt archwilio strategaethau ei gilydd, rhannu gwybodaeth a syniadau; 'They learn to make their learning visible and to

listen to each other when they have to explain their reasoning, justify their strategies and answers' (Swain et al., 2007: 19). Cynllunnir, felly, weithgareddau rhyngweithiol ym mathemateg yn y dyfodol agos.

Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes rhaid i bob gweithgaredd fod yn gydweithredol, ond yn hytrach bod cyfleoedd strwythuredig wedi'i gynllunio ar gyfer rhyngweithiad o ryw fath. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) yn awgrymu strategaeth asesu cyfoedion fel modd effeithiol o ryngweithio a chynnal trafodaeth ymysg disgyblion. Sylweddolir, mae'r man cychwyn ar gyfer cyflwyno strategaeth asesu cyfoedion yw modelu'r broses, hynny yw, dangos ac esbonio i'r disgyblion sut y dylai ei wneud. Cefnogwyd y cysyniad hwn gan Bruner (1996) a awgrymodd fod gan oedolyn rôl gynhaliol i 'sgaffaldio' dysgu plant. Atgyfnertha Siencyn a Richards (2010) fod gan oedolion rôl bwysig i ofyn cwestiynau agored er mwyn hybu sgiliau rhesymu ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Sicrheir felly cyfleoedd strwythuredig ar gyfer rhyngweithiad ag oedolyn felly. Sylweddolir, hefyd, y gall disgyblion sgaffaldio dysgu ei gilydd. Sicrheir, felly, fod cyfleoedd i ryngweithio mewn grwpiau gallu cymysg er mwyn rhoi'r cyfle i ED ymestyn ei dealltwriaeth drwy esbonio i eraill a chaniatáu'r cyfle iddi roi trefn ar ei syniadau ei hunan.

Sicrheir, hefyd, gyfleoedd i ED ymdrîn a thrafod ag adnoddau diriaethol er mwyn cefnogi ei dysgu mewn gwersi Gwyddoniaeth. Cefnogwyd y gysyniad hwn gan Donaldson (2015: 15) 'Mae gwyddoniaeth yn golygu cael gwybodaeth drwy arsylwi ac arbrofi'. Fodd bynnag, gellir dweud bod adnoddau diriaethol yn ddefnyddiol ar gyfer meysydd dysgu eraill er enghraifft mathemateg a rhifedd. Pwysleisia Moyer (2001: 176) bwysigrwydd 'manipulatives', hynny yw gwrthrychau y gellir eu trin, yn y pwnc mathemateg, a'i disgrifio fel a ganlyn, 'Objects designed to represent explicitly and concretely mathematical ideas that are abstract. They have both visual and tactile appeal and can be manipulated by learners through hands-on experiences'. Er gellir dadlau bod y defnydd o adnoddau diriaethol yn fwy addas a chyffredin i gefnogi dysgu plant ifanc, mae Edwards (1988) yn dadlau bod defnyddio gwrthrychau ac adnoddau diriaethol yn gymorth i bob plentyn gaffael dealltwriaeth fathemategol. Ar y llaw arall, mae Anghileri (2000: 10) yn dadlau yn erbyn adnoddau diriaethol drwy awgrymu y gall blant gorddibynnu arnynt. Wrth gynllunio felly, ystyrir

priodoldeb adnoddau diriaethol a pha mor ddefnyddiol neu andefnyddiol y gallant fod o ran datblygiad dysgu ED.

Sicrheir, hefyd, gyfleoedd cyfoethog i ddysgu ac addysgu y tu allan o ganlyniad i'r data a gasglwyd. Un o argymhellion Donaldson (2015:17) yw i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu y tu allan ac felly gellir dweud ei fod yn hanfodol ystyried hyn ar gyfer ffordd ymlaen. Noda Estyn (2017) arfer dda gan Ysgol Gynradd Blaengwawr o'i ddefnydd cyson o'r ystafell ddosbarth awyr agored. Cynlluniwyd gweithgareddau 'I Can Explore' ar gyfer y plant a'r plant sy'n arwain y gweithgareddau hynny (Estyn, 2017). Penderfynir felly gynllunio gwersi mathemateg yn benodol y tu allan a fydd yn caniatáu i'r disgyblion arwain a pherchnogi eu dysgu.

O ganlyniad i'r data a dadansoddir, sylweddolir ar bwysigrwydd creadigedd ar draws y cwricwlwm. Unwaith eto, noda Donaldson (2015) fod dysgu ac addysgu da yn hybu sgiliau creadigol ac felly hanfodol yw eu hystyried ar gyfer y ffordd ymlaen. Yn ogystal â hyn, un o bedwar diben y cwricwlwm newydd ar y gweill yw i holl blant a phobl ifanc fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol (Donaldson, 2015). Sylweddolir nad yw creadigedd wedi'i gyfyngu i'r celfyddydau yn unig ac yn 'fwy na thynnu llun a chreu gwrthrych o glai' (Gealy a Rees, 2010: 89). Atgyfnerthwyd y cysyniad hwn gan Duffy (2006: 57) 'creativity is part of every area of the curriculum and all areas of learning have the potential to be creative experiences'. Noda Estyn (2016) arfer dda mewn ysgol Cynwyd Sant sy'n gwella llythrennedd trwy ddysgu creadigol. Sicrheir, felly, y cyfle i ED ddatblygu a defnyddio ei sgiliau creadigol mewn gwersi'r celfyddydau megis celf yn ogystal â meysydd dysgu arall ar draws y cwricwlwm megis ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Cydnabuwyd wrth ddadansoddi'r data bwysigrwydd iechyd i les ED. Rhoddir ystyriaeth i bwysigrwydd iechyd a Lles yn adroddiad Donaldson (2015) sy'n ei argymhell fel un o'r chwe maes dysgu ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru gan adleisio cwricwlwm Seland Newydd 'Te Whāriki' sy'n rhoi blaethoriaeth i les fel elfen hanfodol o'r dysgu (Ryder, 2017). Meddai Donaldson (2015: 45) 'Mae angen i blant a phobl ifanc brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn ffynnu a llwyddo yn eu haddysg'. Er mwyn darparu ar gyfer lles ED, sicrheir bod iechyd a lles yn rhan

ganolog o'r ddarpariaeth a gynigir. Gellir, felly, cynnal gwersi sy'n ymwneud â phwysigrwydd bwyta'n iach yn ogystal â gwersi coginio sydd yn dysgu'r disgyblion ynghylch cynhwysion iach. Noda Estyn (2016) bod ysgolion sydd yn canolbwyntio ar iechyd a lles yn profi gwelliannau cryf o ran y gallu i ganolbwyntio ac ymgysylltiad y disgyblion mewn gwersi.

Gellir dweud y mae'r ymchwiliad hwn yn cynnig dadansoddiad cyfannol o ddatblygiad plentyn drwy ddulliau cadarn a dibynadwy. Fodd bynnag, petawn am gynnal ymchwiliad o'r fath eto, byddaf yn cynllunio amser penodol i arsylwi ar blentyn targed er mwyn gallu casglu data mewn mwy o fanylder. Cyfyngder i'r dull arsylwi cyfranogol oedd na chafwyd cyfle i ganolbwyntio yn uniongyrchol ar y plentyn targed oherwydd roedd rhaid rhoi sylw i weddill y dosbarth. Atgyfnerthwyd hyn gan Bryman (2012) sy'n nodi mai anfantais y dull hwn yw y gellid colli golwg ar nod ymchwil a cholli gwrthrychedd sefyllfa drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau. Yn ogystal â hyn, gellir dweud nad oedd yn bosib cael darlun cyfan oherwydd cyfyngder amser yr ymchwiliad. Petawn am ddadansoddi datblygiad cyfannol plentyn eto, byddwn yn gwneud hwn dros gyfnod hirach er mwyn cael darlun cyflawn o anghenion dysgu plentyn.

5. Casgliadau (350)

Cydnabyddir, wedi cynnal yr ymchwiliad hwn, bwysigrwydd asesu a dadansoddi datblygiad cyfannol dysgwyr. Sylweddolir nad holl bwrpas asesu yw graddio disgyblion, yn hytrach, gellir defnyddio deilliannau asesuadau er mwyn cynllunio addysgu a phrofiadau dysgu'r dyfodol. Cytunir felly â Jones (2017: 105) a awgrymodd fod asesu'n 'arf sy'n llywio arddull addysgu athrawon'. Casglwyd, yn yr ymchwiliad hwn, fod llawer o ffyrdd i bersonoleiddio profiadau dysgu ED er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei llawn potensial. Sylweddolir y gall ffactorau allanol megis arddulliau addysgu, adnoddau a'r amgylchedd a ddarperir dylanwadu ar ei chymhelliant a'i hymrwymiad, yn ogystal â ffactorau mewnol megis eu hagwedd a'i theimladau at yr hyn a addysgir. Cydnabyddir pwysigrwydd ystyried y nodweddion hyn wrth gynllunio gwersi'r dyfodol er mwyn sicrhau bod ED wedi'i hymrwymo'n llwyr ac yn gwneud y cynnydd priodol. Sylweddolir, hefyd, bwysigrwydd gwneud hwn gyda

holl ddisgyblion y dosbarth. Er gall fod yn broses hir wyntog, cydnabyddir y gall fod yn fuddiol iawn o ran cyrhaeddiad a datblygiad y disgyblion yn y pen draw. Mewn gwirionedd, yn sgîl dyfodiad y cwricwlwm newydd wedi'i seilio ar adroddiad Donaldson (2015), ceir pwyslais mawr ar asesu ffurfiannol a rhoddir pwyslais ar weld asesu'n rhan barhaus ac adeiladol o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

6. Rhestr Gyfeirio

Anghileri, J. (Gol.) (2000). *Teaching number sense*. Llundain: Continuum.

Bates, B. (2016) *Learning Theories Simplified*. Llundain: SAGE

Bell, J. (2010) *Doing Your Research Project: A guide for first time researchers in Education and Social Science* (5ed arg). Maidenhead: Open University Press.

BERA (2011) *Ethical Guidelines for Educational Research*. Llundain: British

Black, P.J and Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards through classroom assessment*. Granada Learning

Bruce, T. (gol) (2006) *Early Childhood Education* (2il arg). Llundain: Hodder & Stoughton

Bruner, J. (1996) *The culture of education*. Caergrawnt: Harvard University Press

Bryman, A. (2012) *Social Research Methods*. Rhydychen: Oxford University Press.

Clark, A. a Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach* (2il arg). Llundain: National Children's Bureau.

Claxton, G. (2002) *Building Learning Power: Helping young People Become Better Learners*. Bristol: TLO Ltd

Cohen, L., Manion, L., a Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education* (7fed arg). Rhydychen: Routledge.

Cremin, T. a Barnes, J. (2018) 'Creativity and creative teaching and learning' yn Cremin, T. a Burnett, C. (goln) *Learning to Teach in the Primary School* (4ydd arg). Rhydychen: Routledge

Danby, S.J., Ewing, L., a Thorpe, K.J. (2011) 'The novice researcher: interviewing young children', *Qualitative Enquiry*, 17, 1, tt. 74-84.

Denscombe, M. (2014) *The good research guide: for small-scale social research projects* (5ed arg). Maidenhead: Open University Press

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Duffy, B. (2006) *Supporting Creativity and Imagination in the Early Years* (2il arg). Buckingham: Open University Press

Edwards, S. (1998). *Managing effective teaching of mathematics 3–8*. Llundain: Paul Chapman.

Edwards, C., Gandini, L., Forman, G (goln.) (2012) *The Hundred Languages of Children: The Reggio Emilia Experience in Transformation* (3ydd arg). Rhydychen: Praeger

Estyn (2015) *Adroddiad ar *Leoliad ysgol**. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Cwrt%20Henri.pdf> [Darllenwyd 11 Mai 2018]

Estyn (2016) *Gwella llythrennedd trwy ddysgu creadigol*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-llythrennedd-trwy-ddysgu-creadigol>

Estyn (2017) *Arfer Effeithiol - Annog dysgwyr annibynnol ac ymholgar yn y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/annog-dysgwyr-annibynnol-ac-ymholgar-yn-y-cyfnod-sylfaen> [Darllenwyd 10 Mai 2018]

Estyn (2016) *Gwella lles a safonau cyrhaeddiad*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-lles-safonau-cyrhaeddiad>

Fisher, R. a M, Williams. (2004) *Unlocking creativity: Teaching Across the Curriculum*. Llundain: David Fulton Publishers

Gealy, A. a Rees, A. (2010) 'Y Plentyn Creadigol', yn Siencyn, S.W. (gol) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Prifysgol y Drindod, tt.79-98

Gealy, A. a Saer, S. (2010) 'Y cysyniad o les y plentyn a gweithredu er lles plant', yn Siencyn, S.W. (gol) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Prifysgol y Drindod, tt.133-152

Golwg360 (2014) 1 o 4 plentyn brin yn chwarae tu allan. Ar gael yn:

<https://golwg360.cymru/newyddion/prydain/153798-14-plentyn-prin-yn-chwarae-tu-allan> [Darllenwyd 20 Mai 2018].

Grigg, R. (2015) *Becoming an outstanding primary school teacher*. Rhydychen: Routledge.

Grigg, R. and Lewis, H. (2016) *A to Z of learning outside the classroom*. London: Bloomsbury publishing.

Hattie, J. (2012) *Visible learning for teachers*. London: Routledge.

Jones, M. (2017) 'Asesu ar Gyfer Dysgu' yn: Hopwood, M a Defis, N. (goln) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*.

Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/caecd/publications/090415rightstoactioncy.pdf> [Darllenwyd 19 Mai 2018 [Darllenwyd 27 Mai 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130424-art-and-design-in-the-national-curriculum-cy-v2.pdf> [Darllenwyd 19 Mai 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf> [Darllenwyd 15 Mai 2018]

MacBlain, S. (2014) *How children learn*. Llundain: SAGE

Moyer, P. (2001). *Are we having fun yet? How teachers use manipulatives to teach mathematics*. *Education Studies in Mathematics*, 47(2): 175–197.

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning*. Rhydychen: Routledge.

Nottingham, J. (2016) *Challenging Learning* (2il arg). Rhydychen: Routledge

PYDDS (2017) *Research Ethics & Integrity Code of Practice*. UWTSD

Richards, C. (2010) Yr Amgylchedd: 'Tu fewn, tu allan a thu hwnt: golwg ar yr amgylchedd dysgu' yn Siencyn, S.W. (gol) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Prifysgol y Drindod, tt.43-61

Richards, C. and Lewis, H. (2010) 'Y Plentyn Hŷn: her trosglwyddo' yn S. Siencyn, (gol) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, tt.175-188.

Ryder, N. (2017) 'Lles a Bugeilio'. Yn: Hopwood, M a Defis, N. (goln) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa.

Siencyn, S. 'Plant ifainc yn dysgu: Golwg ar rai damcaniaethau', yn S.Siencyn (gol) (2008) *Y Plentyn Bach: Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar*. Caerfyrddin: Coleg y Drindod, tt.113-162.

Siencyn, S. a Richards, C. (2010) 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn S. Siencyn, (gol) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, tt.175-188.

Swain, J., Newmarch, B. a Gormley, O. (2007) *Numeracy-Developing Adult Teaching and Learning: Practitioner Guides*. NIACE: Leicester.

Thomas, S. a Loughran, A. 'Arsylwi ac adfyfyrio: oedolion a phlant yn dogfennu', yn S. Siencyn (gol), (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed - Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, tt.115-132.

Vecchi, V. (2010) *Art and Creativity in Reggio Emilia: Exploring the role and potential of ateliers*: Llundain: Routledge

Vygotsky, L. (1978) *Mind in Society: Development of Higher Psychological Processes*. Cambridge: Harvard University Press.

William, D. (2011) *Embedded Formative Assessment*. Solution Tree Press

7. Atodiadau

Atodiad 1

Caniatâd oddi wrth y prifathro / athro dosbarth

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2018.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Marc Jones

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

M. Jones

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen Helen Lewis :
h.e.lewis@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw,


Helen Lewis

Helen Lewis, 14.2.18

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD


Atodiad 2

Cydysniad ymchwil ED



Atodiad 3

Llun o fwrdd grŵp yn y Cyfnod Sylfaen a gymerodd ED



Atodiad 4

Cynllun gwers Blodeuwedd

Sylwer ar gyn-lleied o gyfle i drafod – Amlygir lle y gellid wedi rhoi cyfle i drafod drwy asesu cyfoedion

Canolfan Addysg Athrawon De-Orllewin Cymru  The South West Wales Centre of Teacher Education		1B	
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2			
Enw'r hyfforddai: Ffion Elin Thomas		Cyfeirnod Sesiwn: 8/05/18	
Targed(au) personol o ran SAC: S3.1.2 Cynllunio gweithgareddau gwahaniaethol gan roi ystyriaeth i anghenion amrywiol dysgwyr			
Grŵp blwyddyn: B1 3,4,5,6	Nifer y dysgwyr: 19	ADY(ALN): Cyfieithiad o'r chwedl i'r Saesneg, Gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu yn ôl gallu a blynyddoedd, Tasg Ymestynol	
Oedolion ychwanegol:	0		
Nod(au) dysgu: I nodi prif bwyntiau chwedl Blodeuwedd mewn trefn gronolegol. ~~I ailrefnu darnau o'r chwedl mewn trefn gronolegol.~~		Meini prawf llwyddiant: - Cofio a threfnu'r chwedl - Defnyddio geirfa allweddol (B1 5 a 6)	
Cysylltiadau â dysgu blaenorol:			
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau) Cymraeg Eifen : Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd Agwedd : Ymateb a dadansoddi Sgil : Blwyddyn 3 - nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, Blwyddyn 4 - nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau Blwyddyn 5 - dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, e.e. <i>map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses</i> Blwyddyn 6 - dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc			
Llythrennedd(FFLIRh) ~~Ymateb - Gwerthuso a threfnu - Cyfrannu drafod a threfnu chwybodaeth~~		Rhifedd(FLIRh)	
FFCD	Meddwl Gwerthuso eu dysgu a'u meddwl eu hunain	ADCDF	YCC Diwylliannol
Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg): Duwies (Goddess), Melltith /Melltithion (Curse), Ewyrth (Uncle), Priodferch (Bride), Blodau'r Deri (Derwen - Oak), Blodau'r Banadi, Blodau'r Mâl, Teg, Llys (Court), Cynllwynio (Plot), Ymdrochi (Bathe), Baddon (Bath), Gwawwyffon (Spear), Englyn, Hudlath (Magic), Dial (Revenge), Adennill (Regain), Erfyniodd (Beg / Appeal), Maddeuant (Forgiveness)			
Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn		Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu
10 mun	Cyflwyniad Darllen y chwedl yn dawel i'w hunain Cyd-ddarllen chwedl Blodeuwedd fel dosbarth <u>B1 5 a 6 yn unig</u> Nodi geirfa allweddol wrth ddarllen Nodi unrhyw geirfa allweddol ychwanegol ADY – diffyg Cymraeg – cyfieithiad o eirfa allweddol Saesneg i'r Gymraeg		Oes unrhyw geiriau yn peri trafferth? Pa eiriau sy'n anghyfarwydd ichi? Pa eiriau sy'n hanfodol ar gyfer deall y chwedl hon?

45 awr	Prif weithgareddau Nodi prif syniadau'r stori yn nhrefn gronolegol <u>Bl 5 a 6</u> Defnyddio'r geirfa allwedol y maent wedi'u casglu eu hunain Defnyddio'r geirfa allweddol sydd wedi'u rhoi iddynt ADY – cymorth brawddegau <u>Bl 3 a 4</u> Aildrefnu'r brawddegau brawddegau mewn trefn gronolegol Aildrefnu'r llun a brawddegau mewn trefn gronolegol <u>Tasg Ymestynno!</u> Ateb cwestiynau ynghylch y chwedl	Asesu Cyfoedion Asesu cyfoedion
	Diweddglu Plant i ddarllen eu gwaith – atgyfnerthu'r chwedl Cwis (os yn briodol)	Asesu gwaith cyfoedion (ar lafar) 1. Beth yw'r enw a roddir ar y stori hon? Chwedl 2. Pam nad oedd Lleu yn gallu priodi gwraig o'r Ddaear hon? Melltith / Tynged 3. Sut ydych chi'n credu yr oedd Lleu yn teimlo? Trist/ Grac/ Digalon/ Gofudus/ Cynddeiriog 4. Pwy helpodd Lleu i gael gwraig? Gwydion a Math 5. Pa flodau a wnaeth Gwydion a Math ddefnyddio i greu Blodeuwedd? Blodau'r Deri, Blodau'r Banadl, Blodau'r Erwain 6. I ble yr aeth Lleu a Blodeuwedd i fyw ar ôl y briodas? Tomen y Mur 7. Beth ddigwyddodd tra roedd Lleu oddi cartref? Daeth Gronw Pebr i'r llys a syrthiod Blodeuwedd ac ef mewn cariad 8. Sut denodd Gwydion Lleu lawr o'r goeden? Englyn 9. Paham y gwnaeth Gwydion droi Blodeuwedd yn dylluan? Yr aderyn y mae adar yn ei gasáu ac mae'n aderyn y nos felly ni fydd yn ei gweld yng ngholau'r dydd eto.

Cyfleoedd y gellid fod wedi cynllunio ar gyfer trafodaeth a rhyngweithiad ymysg y disgyblion

Atodiad 5

Enghraifft o waith ED

CO =
Byrfordd sy'n
amlygu y
cafodd ED
gymorth
oedolyn i
drefnu
pwyntiau'r
chwedl mewn
trefn
gronolegol.

mai 8 fedl chwedl Blodeuwedd
nod i o'i drefnu dymuniad i chwedl Blodeuwedd

CO



Gosododd Arianrhod dair mellith ar Llew, un yn dweud na fyddai byth yn priodi gwraig o'r Ddaear hon.



Creodd Gwydion a Math briodferch iddo o'r enw Blodeuwedd allan o flodau'r deri, blodau'r banadl a blodau'r Erwain.



Syrthiodd Llew mewn cariad a bu priodas ar unwaith. Aethant i fyw yng nghastell Ardudwy yn Nhomen y Mur.



Un diwrnod, daeth Gronw Pebr i'r llys. Syrthiodd Blodeuwedd a Gronw mewn cariad yn syth. Aeth y ddau ati i gynllwynio i gael gwared â Llew.



Twyllodd Blodeuwedd Llew i ddweud wrthi sut i'w ladd. Dywedodd fod rhaid iddo ymdrochi mewn baddon ar lan afon; rhoi un troed ar ymyl y baddon a'r llall ar gefn gafr; a chael ei daro â gwaywffon a gymerodd flwyddyn union i'w gwneud.

Atodiad 6

BWA gwers Blodeuwedd heb gyfleoedd i ryngweithio a chydweithio

Model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA)

Dyddiad: 08/05/18

Digwyddiad critigol (Ffocws): Diffyg cymhelliant a chyfranogiad rhai disgyblion

Profiad/ Experience	
Teimladau Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?	Teimlaf yn siomedig gyda diffyg cymhelliant a chyfranogiad disgyblion yn y dosbarth heddiw.
Cofio a Deall Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?	Roedd llawer o ddisgyblion yn camymddwyn ac yn araf yn guneud eu gwaith, gyda rhai hyd yn oed yn gwrthod guneud eu gwaith. Roedd rhaiid imi annog y disgyblion yn aml i barnau gyda'u gwaith.
Gwerthuso a dadansoddi Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?	Credaf yr oedd y diffyg cymhelliant yn ymuneud gyda'r weithgaredd hir a llafurus. Roedd yn cynnwys llawer o ymffennu a gwaith annubynol yn uwg.
Casgliadau a chymau gweithredu Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?	Byddaf yn osgoi gweithgareddau hir a llafurus drwy gynllunio gweithgareddau mwy ymarferol a rhyngweithiol. Gobeithiaf y bydd hyn yn annog cymhelliant a chyfranogiad disgyblion yn y pen draw.
Y profiad newydd	

Atodiad 7

BWA gwers Blodeuwedd gyda llawer o gyfleoedd i ryngweithio a chydweithio


Model Beirniadau Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 10/05/18

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Cyfleodd i ryngweithio

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?	Teimlaf yn hapus gyda chymhelliant a chyfranogiad y disgyblion yn y wers hon.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?	Gosodais y disgyblion yn grwpiau gallu ac oedran cymysg. Roedd rhaid iddynt weithio fel grŵp i benderfynu ar gwestiynau i gyfweld â chymeriadau chwedl Blodeuwedd. Sylweddolais ar y disgyblion mwy alluog yn cymryd y rôl o arwain y weithgaredd. Roedd y disgyblion yn dangos cymhelliant uchel ac ynghlwm â'r weithgaredd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?	Creadf yr oedd gosod y disgyblion mewn grwpiau gallu cymysg yn effeithiol oherwydd roedd y disgyblion mwy abl yn mireinio ei dealltwriaeth drwy esbonio i eraill ac roedd y disgyblion llai abl yn ymestyn ei dealltwriaeth drwy wrando a chyfathrebu â'r disgyblion mwy abl. Credaf yr oedd cyfleoedd i ryngweithio yn hybu cyfranogiad y disgyblion.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?	Byddaf yn defnyddio strategaeth grwpiau gallu cymysg yn fwy aml er mwyn sicrhau cymhelliant a chyfrangoiad uchel mewn gwersi iaith yn benodol. Byddaf yn arbrofi â strategaeth gwaith grŵp mewn meysydd dysgu eraill.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 8 – ED yn archwilio blodyn go iawn




Atodiad 9 – Enghraifft o waith ED

Sylwer ar yr atebion cywir sy'n dangos ei wybodaeth gadarn

mai'afael Rhunall Plannhigion

Nodw archifilio syllogfected gwahanol Rhunall Plannhigion

Meini Prawf Llwyddiant	Fi	Athro/ Athrawes
* Gallu Labeli Rannau Blodyn	✓	✓
* deall fod gan flodau oranhau gwahanol	✓	✓
* a Benhaudd	✓	✓
estonnis syllogdd Rannau Blodyn		



Rwyfoclegau

maer greiddyn yn amlyguon dŵrmaen rhwng
dhal y plantigyn yn eiddo hefyd ✓

maer coesun yn aethu plantigyn yn luth ✓

maer dail yn Rhai egnir plantigyn yn eiddo hefyd ✓

maer bloddyn yn helpu plantigyn i
atgynychu.

Arbenig [REDACTED] Wyt ti'n cofio'r enw
am y broses o greu bwyd ac egnir
oddi wrth gorau'r haul?

fotosynthesis ✓

ffotosynthesis



Atodiad 10 – Llun o droli ffrwythau'r ysgol a gymerodd ED



Atodiad 11 – Lluniau o'r iard a gymerdd ED



Atodiad 12 – Enghraifft o waith llinellau paralel a pherpendiciwlar a gasglwyd y tu allan

Paralel.	Pherpendiciwlar.	Y ddau.
   	  	

Atodiad 13 – Enghraifft o waith celf ED

Sylwer ar dechneg cysgodi'r disgybl sy'n amlygu ei sgiliau creadigol



Atodiad 14 – Enghraifft o waith Saesneg Creadigol

may 24th

Adh. To write a descriptive piece about an imaginary plant.

Have I Used?	Yes/No	Partner
interesting adjectives	✓	✓
similes	✓	✓
paragraphs	✓	✓

I walked into a plant store. it was very colorful. I saw some very strange plants.

I saw a very colorful plant. as colorful as a rainbow. It had golden petals with purple stars on it. it was as clear as gold.

It had leaves as curly as my favorite curly fries.

the roots were as wide as a bridge.

the stem was as straight as a needle.